RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
65/2107
DYDDIAD CYHOEDDI:
31/10/2017

# Y capasiti gofal plant yng Nghymru

## Mapio'r ddarpariaeth gofal plant yn erbyn y galw posibl amdano

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-806-4

Capasiti gofal plant yng Nghymru: Mapio'r ddarpariaeth gofal plant yn erbyn y galw posibl amdano

Hannah Thomas / Llywodraeth Cymru
Sarah Crocker / Llywodraeth Cymru
Joseph Wilton / Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Claire Davies / Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Mitchel Langford / Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), Prifysgol De Cymru
Gary Higgs / Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), Prifysgol De Cymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Hannah Thomas
Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 060 4400
E-bost: Hannah.Thomas018@llyw.cymru
Trafodgofalplant@llyw.cymru

**Cynnwys**


1. Rhagarweiniad ........................................................................................5
2. Methodoleg ........................................................................................19
3. Y darlun ar gyfer Gymru ........................................................................................24
4. Ardaloedd y Gweithredwyr Cynnar ........................................................................................33
5. Casgliadau ........................................................................................46

## Ffigurau

Ffigur 1a. Map o Gymru sy'n dangos dwysedd poblogaeth plant hyd at bedair oed ............10
Ffigur 1b. Map o Gymru sy'n dangos y lefelau o amddifadedd cymharol yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ............11
Ffigur 1c. Map o Gymru sy'n dangos cyfran yr aelwydydd â phlant dibynnol lle mae'r ddau riant yn gweithio, neu'r unig riant yn gweithio ............12
Ffigur 1d. Map o Gymru sy'n dangos dwysedd y gwasanaethau gwarchod plant ar draws Cymru............15
Ffigur 1e. Map o Gymru sy'n dangos dwysedd y gwasanaethau gofal dydd llawn ar draws Cymru............16
Ffigur 1f. Map o Gymru sy'n dangos dwysedd y gwasanaethau gofal dydd rhan-amser ar draws Cymru ............17
Ffigur 2a. Enghraifft wedi'i symleiddio'r dechneg 'dalgylch cyfnewidiol' ............21
Ffigur 2b. Enghraifft o ddalgylchoedd cyfnewidiol sy'n gorgyffwrdd ............22
Ffigur 2c. Enghraifft o ddalgylch darparwyr gofal plant ............23
Ffigur 3a. Map o Gymru sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer yr holl blant hyd at bedair oed, gan gynnwys pob math o ofal plant............26
Ffigur 3b. Map o Gymru sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, gan gynnwys pob math o ofal plant............29
Ffigur 3c. Map o Gymru sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun sy’n gweithio, o ran gwarchodwyr plant yn unig. ............30
Ffigur 3d. Map o Gymru'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, o ran lleoliadau gofal dydd llawn yn unig............31
Ffigur 3e. Map o Gymru sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, o ran lleoliadau rhan-amser yn unig. ............32
Ffigur 4a. Mapiau o Rhondda Cynon Taf sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser ............35

Ffigur 4b. Mapiau o Abertawe sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser......37
Ffigur 4c. Mapiau o Flaenau Gwent sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser ..........39
Ffigur 4d. Mapiau o Ynys Môn a Gwynedd sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser ..........41
Ffigur 4e. Mapiau o Gaerffili sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser.........43
Ffigur 4f. Mapiau o Sir y Fflint sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant o hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser ..........45

**Diffiniadau**

**Capasiti** - y cyflenwad o ofal plant

**Argaeledd** - y gymhareb rhwng y cyflenwad gofal plant a'r galw amdano

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Ym mis Ebrill 2017, roedd 4,025 o ddarparwyr gofal plant wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)[1]. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant yn warchodwyr plant (52 y cant). Caiff gweddill y ddarpariaeth gofal plant ei gyflenwi gan leoliadau gofal dydd sesiynol (20 y cant), lleoliadau gofal dydd llawn (17 y cant), lleoliadau gofal y tu allan i oriau ysgol (10 y cant), darpariaeth chwarae mynediad agored (1 y cant) a *crèches* (0.5 y cant)[2].

1.2 Gwnaeth nifer y lleoedd gofal plant yng Nghymru gynyddu o 76,000 yn 2012 i 84,000 yn 2017. Gofal dydd llawn a gwasanaethau gofal ar ôl ysgol sy'n tueddu i fod â'r galw mwyaf amdanynt.

1.3 Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi gwerth mawr ar ofal plant ac yn cydnabod ei rôl hanfodol ym mywydau teuluoedd yng Nghymru. Mae gofal plant fforddiadwy sydd ar gael yn hwylus yn bwysig o ran datblygiad plant ac yn galluogi rhieni i weithio neu hyfforddi, gan gefnogi ein hymdrechion i wella twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau.

1.4 I gydnabod hyn, mae darparu gofal plant o ansawdd da sy'n hyblyg a fforddiadwy yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Yn benodol, mae wedi ymrwymo i ehangu'r cynnig addysg a gofal plant am ddim ar gyfer rhieni sy’n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru.

1.5 Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru yw'r prif ffactor sy'n debygol o sbarduno newid yn y sector gofal plant yn y blynyddoedd sydd i ddod. Ar hyn o bryd, mae gan bob plentyn tair a phedair oed hawl i isafswm o 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar yn ystod y tymor. Bydd y Cynnig Gofal Plant yn cyfuno'r oriau hyn gydag 20 awr ychwanegol o ofal plant yn ystod y tymor ar gyfer aelwydydd lle mae'r ddau riant yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Ar gyfer y naw wythnos o wyliau ysgol, bydd plant tair a phedair oed y cael 30 awr o ofal plant. Bydd y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru'n cael ei gyflwyno'n raddol gan ddechrau ym mis Medi 2017, a disgwylir iddo fod ar waith ar draws Cymru erbyn 2020.

[1] Gweler https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Services-for-Social-Care-and-Childrens-Day-Care

[2] Cyfeiriadur AGGCC o leoliadau gofal dydd cofrestredig - Rhagfyr 2016.

1.6 Diben yr adroddiad hwn yw pennu gallu'r farchnad gofal plant bresennol i ddarparu ar gyfer y galw posibl am ofal plant yn y dyfodol pan fydd y Cynnig Gofal Plant yn cael ei gyflwyno. Nodir y bwlch hwn yn y dystiolaeth ymchwil mewn adroddiad diweddar gan NatCen ar gyfer Achub y Plant, wrth gymharu'r niferoedd sy'n manteisio ar ofal plant a'r patrymau o ran y defnydd o ofal plant ar draws y pedair gwlad yn y DU. Yn fwy cyffredinol, mae'r data o ansawdd da sydd ar gael am ofal plant yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar gyfer gwahanol grwpiau oedran yn fwy cyfyngedig na'r hyn sydd ar gael ar gyfer gofal plant yn Lloegr[3].

1.7 Mae gwahanol fathau o ofal plant ar gael i rieni, a phob un ohonynt â manteision a chostau gwahanol. At ddibenion y prosiect hwn, dim ond y gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru ag AGGCC, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sy'n cael eu hystyried. Golyga hyn nad yw gofal plant fel *nannies* ac *au pairs* wedi'u cynnwys. Yn yr un modd, mae nifer o rieni'n defnyddio gofal plant anffurfiol fel gofal a ddarperir gan deidiau a neiniau a ffrindiau; nid yw'r math hwn o ofal wedi'i gynnwys chwaith. Caiff y mathau o ddarpariaeth gofal plant ffurfiol a ystyrir yn yr adroddiad hwn eu hamlinellu a'u diffinio yn yr adran nesaf.

**Gwarchod plant**

1.8 Dyma ofal plant a ddarperir gan un neu fwy o bobl ar gyfer plant o'i geni i 12 oed am fwy na dwy awr y dydd mewn tŷ heblaw cartref y plentyn. Gall gwarchodwyr plant gynnig gofal dydd llawn neu ofal rhan-amser, gan gynnwys cyn ac ar ôl ysgol. Gallant osod eu prisiau eu hunain.

**Gofal dydd**

1.9 Darperir gofal dydd mewn safle annomestig, ac fel arfer rhaid bod y darparwr wedi'i gofrestru ag AGGCC os yw'n gofalu am blant hyd at 12 oed am fwy na dwy awr y dydd. Mae'n cwmpasu gwahanol fathau o ddarpariaeth.

**1. Gofal dydd llawn**

1.10 Mae gofal dydd llawn yn ofal ar gyfer plant hyd at 12 oed am bedair awr neu fwy'r dydd. Gall gynnwys gofal llawn-amser neu ran-amser, gofal cyn ac ar ôl ysgol, ynghyd â gofal yn ystod y gwyliau a gofal cofleidiol. Mae'r math hwn o ofal plant yn cynnwys lleoliadau sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gofal sesiynol, megis meithrinfeydd dydd Cymraeg a Saesneg.

[3] http://natcen.ac.uk/media/1361385/childcare-use-and-attitudes.pdf

**2. Gofal dydd sesiynol**

1.11 Mae gofal sesiynol yn ofal ar gyfer plant dwy oed â hŷn am lai na phedair awr y dydd. Caiff y gofal hwn ei ddefnyddio gan blant tair i bump oed yn bennaf, a gall gynnig darpariaeth grŵp chwarae, Cylch Meithrin, lleoedd addysg a ariennir a lleoedd gofal plant am ddim.

**3. Gofal plant y tu allan i oriau ysgol**

1.12 Mae gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn golygu gofal a ddarperir cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Nid yw'n cynnwys gofal cofleidiol a chynllun brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd Llywodraeth Cymru. Felly, mae'r gofal hwn ar gyfer plant 5 oed neu hŷn yn unig fel arfer.

**4. *Crèches***

1.13 Mae *crèches* yn cynnig gofal dydd achlysurol i blant hyd at 12 oed. Rhaid eu bod wedi cofrestru ag AGGCC os ydynt ar waith am fwy na dwy awr y dydd ac am fwy na phum diwrnod y flwyddyn. Mae rhai c*rèches* mewn safleoedd parhaol ac yn gofalu am blant tra bod eu rhieni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol (e.e. hyfforddiant, siopa neu chwaraeon). Mae eraill yn cael eu sefydlu dros dro i ofalu am blant tra bod eu rhieni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau am gyfnod penodol o amser (e.e. cynhadledd neu arddangosfa).

**5. Darpariaeth chwarae mynediad agored**

1.14 Gall darpariaeth chwarae mynediad agored fod yn ddarpariaeth barhaol neu dros dro sy'n addas ar gyfer ystod eang o grwpiau oedran, ond plant pump oed a hŷn sy'n ei ddefnyddio fel arfer. Pwrpas y ddarpariaeth hon yw darparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a hynny heb eu rhieni'n bresennol. Ni cheir cyfyngiadau ar symudiadau'r plant, ar wahân i sefyllfaoedd sy'n berthnasol i faterion iechyd, ac ni rwystrir y plant rhag mynd a dod fel y dymunant.

1.15 At ddibenion yr ymchwil hon, cafodd gwarchodwyr plant, gofal dydd llawn a gofal dydd rhan-amser eu hystyried fel grwpiau ar wahân. Mae gofal dydd rhan-amser yn cynnwys gofal sesiynol, gofal ar ôl ysgol, *crèches* a darpariaeth chwarae mynediad agored.

**Nodau ac amcanion**

1.16 Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu er mwyn pennu gallu'r farchnad gofal plant bresennol i ddarparu ar gyfer y galw posibl am ofal plant yn y dyfodol pan fydd y Cynnig Gofal Plant newydd yn cael ei gyflwyno. Cafodd y gwaith ei rannu'n dri cham:

a) Nodi'r cyflenwad gofal plant a'i leoliad;
b) Nodi pa ardaloedd yng Nghymru sy'n debygol o fod â galw uwch am ofal plant;
c) Cymharu'r cyflenwad a'r galw posibl o fewn dalgylchoedd teithio lleol.

1.17 I sicrhau bod y gwaith hwn mor effeithiol â phosibl, cafodd y cymariaethau eu gwneud ar lefel ardaloedd bach iawn. Er ei bod yn amhosibl ar hyn o bryd i nodi'r aelwydydd lle mae plant yn byw, gallwn nodi nifer y plant sy'n byw yn Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad, sydd fel arfer rhwng 100 a 150 o aelwydydd, e.e. pentref bach neu gasgliad o strydoedd maestrefol.

1.18 Felly, y cwestiynau i'w hateb oedd:

- Beth yw capasiti cyffredinol y cyflenwad gofal plant o'i gymharu â'r galw posibl ar draws Cymru?
- Ym mha ardaloedd yng Nghymru nad oes digon o ofal plant ar gael i fodloni'r galw posibl yn lleol?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael ar hyn o bryd a'r lefel a ddymunir o bosibl i weithredu'r Cynnig Gofal Plant newydd yn effeithiol?
- Faint o'r wahanol fathau o ofal plant sydd ar gael?

**Y galw am ofal plant**

1.19 Er bod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar benderfyniad rhiant i ddefnyddio gofal plant, y plant sy'n fwyaf tebygol o fod mewn gofal plant yn rheolaidd yw'r rheini sydd o dan bump oed ac sy'n byw ar aelwydydd sy'n gweithio mewn ardaloedd llai difreintiedig[4]. Felly, gellid disgwyl y bydd mwy o alw am ofal plant mewn ardaloedd sydd â nifer fawr o blant o oed cyn ysgol, ardaloedd sydd â chyfran uwch o deuluoedd sy'n gweithio, ac ardaloedd nad ydynt yn rhai difreintiedig.

[4] Gweler https://www.gov.uk/government/statistics/childcare-and-early-years-survey-of-parents-2014-to-2015

1.20 Mae Ffigur 1a yn dangos dwysedd y boblogaeth o ran plant hyd at bedair oed. Gwelir bod y dwysedd uchaf o blant ifanc mewn canolfannau trefol, yn enwedig yn rhanbarth y De-ddwyrain yn ardaloedd Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd. Ceir clystyrau a chanddynt ddwysedd uchel yn y Gogledd hefyd, yn ardaloedd Wrecsam a Phrestatyn, ac yng Nghymoedd De Cymru.

1.21 Mae Ffigur 1b yn dangos amddifadedd cymharol ar draws Cymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Gwelir yn glir bod Cymoedd De Cymru'n ardal o amddifadedd lluosog, ac yn fwy difreintiedig na gweddill Cymru. Yn ogystal, ceir rhai ardaloedd bach o amddifadedd uchel mewn lleoedd fel Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.


1.22 Ymddengys fod lefelau cymharol isel o amddifadedd ar draws Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru gydag un neu ddau o bocedi bach o amddifadedd yn unig. Mae hyn yn awgrymu bod y De-ddwyrain yn fwy difreintiedig na gweddill Cymru, ac o bosibl yn llai tebygol o fod â galw uchel am ofal plant.

1.23 Mae Ffigur 1c yn dangos cyfran yr aelwydydd yng Nghymru lle ceir rhiant sy'n gweithio, o'r cyfanswm o aelwydydd lle mae plant dibynnol. Y gyfradd gyfartalog o aelwydydd lle mae'r ddau riant, neu un rhiant, mewn cyflogaeth yw 66.7%.


1.24 Y mannau tywyll yw'r ardaloedd lle ceir cyfran uwch o rieni sy'n gweithio. Yn debyg i'r sefyllfa ar gyfer lefelau amddifadedd, ceir lefelau isel o gyflogaeth yng Nghymoedd De Cymru ac ym mhrif ardaloedd trefol y De-ddwyrain. Eto, gwelir lefelau cymharol uchel o gyflogaeth yn y Gogledd a'r Canolbarth. Er nad yw'r lefelau cyflogaeth yng Ngorllewin Cymru mor uchel â'r lefelau yn y Gogledd, maent hefyd yn uwch na'r lefelau yn y De-ddwyrain.

1.25 Gyda'i gilydd, mae'r mapiau hyn yn awgrymu bod dwysedd uchel o blant yn y De-ddwyrain, ond nad yw rhieni angen defnyddio gofal plant neu'n gallu fforddio gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yna rieni yn y Gogledd sy'n gallu defnyddio gofal plant, ond bod llai ohonynt nag yn yr ardaloedd mwy dwys yn y De.

**Ffigur 1a. Map o Gymru sy'n dangos dwysedd poblogaeth plant hyd at bedair oed**



**Ffigur 1b. Map o Gymru sy'n dangos y lefelau o amddifadedd cymharol yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru,*
*Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (MALIC) 2014*

AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Yn cynnwys data o'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawliau cronfa ddata 2017

**Ffigur 1c. Map o Gymru sy'n dangos cyfran yr aelwydydd â phlant dibynnol lle mae'r ddau riant yn gweithio, neu'r unig riant yn gweithio**



1.26 Amcangyfrifir bod 87 y cant o rieni'n defnyddio'r 10 awr o addysg y blynyddoedd cynnar am ddim[5] a bod oddeutu 66 y cant o rieni yn Lloegr sydd â phlant hyd at 14 oed yn defnyddio rhyw fath o ofal plant ffurfiol[6]. Mae'r ffigur hwn yn amrywio yn ôl oedran h.y. mae oddeutu 40 y cant o blant hyd at ddwy oed a 90 y cant o blant tair i bedair oed mewn rhyw fath o ofal plant ffurfiol.

1.27 Yn achos plant hyd at dwy oed, mae tua 80 y cant o'r rheini sydd mewn gofal plant ffurfiol yn defnyddio rhyw fath o leoliad gofal dydd, meithrinfa neu grŵp chwarae; ac mae llai na 20 y cant yn mynd at warchodwr plant. Argaeledd addysg y blynyddoedd cynnar sy'n bennaf gyfrifol am y niferoedd uchel o blant tair i bedair oed sydd mewn gofal plant. Felly, mae'r defnydd o leoliadau nad ydynt yn rhai addysgol, megis gwarchodwyr plant a chanolfannau gofal dydd, yn gostwng.

1.28 Mae'r plant o oedran cyn ysgol sy'n mynd i leoliad gofal plant ffurfiol fel arfer yn treulio rhwng 16 a 19 awr yr wythnos yno ar gyfartaledd. Amcangyfrifir bod mwy o ddefnydd o ganolfannau gofal dydd na gwarchodwyr plant a grwpiau chwarae, gyda phlant yn treulio 18 awr yr wythnos mewn canolfannau gofal dydd ac 11 a 12 awr yr wythnos yn unig gyda gwarchodwyr plant neu mewn grwpiau chwarae.

### Y cyflenwad o ofal plant

1.29 Mae'r mesur ar gyfer y cyflenwad o ofal plant at ddibenion y prosiect hwn yn seiliedig ar leoliadau gofal plant sydd wedi'u cofrestru ag AGGCC. Mae union leoliad pob un o'r gwasanaethau hyn yn wybyddus, ac eithrio gwarchodwyr plant lle mae'r cyfeiriad wedi'i gyfyngu i'r cod post yn unig. Mae capasiti pob un o'r lleoliadau hyn hefyd yn wybyddus, ac felly gall hyn ddarparu mesur dibynadwy o nifer y lleoedd gofal plant ar draws Cymru ac ym mhob ardal fach.

1.30 Ar gyfer y prosiect hwn, tybiwyd bod pob gwarchodwr plant a lleoliad gofal dydd llawn yn gallu ac yn fodlon darparu hyd at wyth awr o ofal plant fesul plentyn bob dydd, a bod lleoliadau gofal dydd rhan-amser yn gallu darparu hyd at bedair awr. Mae hyn yn golygu bod modd trosi nifer y lleoedd sydd ar gael yn nifer yr oriau dyddiol sydd ar gael fesul plentyn.


[5] Gweler http://ppiw.org.uk/files/2016/02/Childcare-Policy-Options-for-Wales.pdf
[6] Gweler https://www.gov.uk/government/statistics/childcare-and-early-years-survey-of-parents-2014-to-2015

1.31 Mae dosbarthiad y gwarchodwyr plant yn dangos eu bod wedi'u clystyru yn y De-ddwyrain a'r Gogledd yn bennaf. Ceir tua 2,000 o wasanaethau gwarchod plant ar draws Cymru ac mae oddeutu hanner yr holl wasanaethau gofal plant yn warchodwyr plant. Gweler Ffigur 1d. Fodd bynnag, ychydig bach o gapasiti sydd ganddynt ac felly maent ond yn darparu tua 20 y cant o gyfanswm y lleoedd gofal plant. Felly, er eu bod yn rhan hanfodol o'r farchnad gofal plant, gwasanaethau gofal dydd sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r capasiti yn y farchnad gofal plant.

1.32 Ceir tua 700 o leoliadau gofal dydd llawn, sy'n darparu oddeutu 30,000 o leoedd. Gweler Ffigur 1e. Gwelir o'r map hwn mai yn rhanbarthau'r De-ddwyrain a'r Gogledd y mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal dydd llawn, yn debyg i warchodwyr plant. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau yn y rhanbarthau hyn wedi'u clystyru mewn ffordd benodol iawn, gydag ychydig iawn o leoliadau gofal dydd llawn wedi'u lleoli y tu allan i ganolfannau trefol. Er bod rhai gwarchodwyr plant i'w cael mewn ardaloedd gwledig, nid oes bron unrhyw leoliadau gofal dydd llawn ar gael yn y Canolbarth a Gorllewin Cymru.


1.33 Ymddengys fod lleoliadau gofal dydd rhan-amser wedi'u dosbarthu ychydig yn fwy cyfartal ar draws Cymru na gofal dydd llawn, ond maent dal i fod yn fwy niferus yn rhanbarthau'r De-ddwyrain a'r Gogledd. Darpariaeth ran-amser yw'r rhan fwyaf o leoliadau gofal dydd, gyda thua 1,200 o'r 1,900 o leoliadau gofal dydd ddim yn cynnig gofal dydd llawn. Fodd bynnag, mae lleoliadau gofal dydd rhan-amser fel arfer yn llai na lleoliadau gofal dydd llawn, ac felly mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig cyfanswm o tua 35,000 o leoedd.

**Ffigur 1d. Map o Gymru sy'n dangos dwysedd y gwasanaethau gwarchod plant ar draws Cymru**





Yn cynnwys data o'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawliau cronfa ddata 2017

**Ffigur 1e. Map o Gymru sy'n dangos dwysedd y gwasanaethau gofal dydd llawn ar draws Cymru**



**Ffigur 1f. Map o Gymru sy'n dangos dwysedd y gwasanaethau gofal dydd rhan-amser ar draws Cymru**



### Argaeledd gofal plant

1.34 Bydd argaeledd gofal plant yn dibynnu ar y galw amdano a'r cyflenwad. Mae'r broses o fapio'r ddwy agwedd yn dangos bod y boblogaeth o blant ifanc yn y De-ddwyrain yn fwy dwys, a bod lefelau uwch o ddiweithdra ac amddifadedd yn yr ardaloedd hyn. Hefyd, mae gwasanaethau gofal plant yng Nghymru fel arfer i'w cael yn ardaloedd y De-ddwyrain a'r Gogledd.

1.35 Gellid tybio, felly, y bydd mwy o ofal plant ar gael yn y Gogledd oherwydd ei bod yn ardal lai dwys ei phoblogaeth a bod rhieni'n fwy tebygol o allu fforddio gofal plant. I'r gwrthwyneb, mae dwysedd y boblogaeth yn y De a'r a'r ffaith bod rhieni'n llai tebygol o allu fforddio gofal plant yn golygu o bosibl y bydd llai o ofal plant ar gael yn yr ardal hon.

### Cyfyngiadau

1.36 Mae'n bwysig nodi ei bod yn hawdd mesur y cyflenwad o ofal plant, ond gellir ond amcangyfrif y galw amdano o'r ffactorau a drafodir uchod. Felly, er bod y prosiect hwn yn ceisio cynhyrchu mesur o'r cyflenwad yn erbyn y galw yng Nghymru, amcangyfrif o'r galw a'r galw posibl a ddefnyddiwyd ac felly nid yw'n debygol o fod yn gwbl gywir.

1.37 Ffactor arall i'w gadw mewn cof yw mai plant hyd at bedair oed yn unig sydd wedi'u hystyried yn yr adroddiad hwn. Felly, mae unrhyw amcangyfrifon o argaeledd yn debygol o fod yn oramcangyfrif, gan nad yw'r galw am ofal plant ar gyfer plant pump oed neu hŷn wedi'i ystyried.

1.38 Mae oedran y plant yn arbennig o berthnasol ar gyfer lleoliadau gofal dydd rhan-amser. Dim ond 11 y cant o blant sy'n defnyddio gofal y tu allan i oriau ysgol a 6 y cant o'r rheini sy'n defnyddio lleoliadau chwarae mynediad agored sydd yn iau na phump oed. Fodd bynnag, mae bron pob plentyn mewn gofal dydd sesiynol a *crèches* yn iau na pump oed.

1.39 Yn wahanol i wasanaethau gofal dydd rhan-amser, mae gwasanaethau gofal dydd llawn yn darparu gofal bron i ddieithriad i blant o dan bump oed, gyda 13 y cant yn unig o'r plant sy'n eu mynychu yn bump oed neu'n hŷn. Ar y llaw arall, mae gan warchodwyr plant ddarpariaeth fwy eang, gydag oddeutu 40 y cant o'r plant yn bump oed neu'n hŷn.

1.40 Effaith oedran yw bod yr amcangyfrifon o'r galw posibl sy'n seiliedig ar y boblogaeth o oed geni i bedair oed yn fwy tebygol o fod yn gywir ar gyfer gofal diwrnod llawn, ac yn llai cywir ar gyfer gofal dydd rhan-amser. Hefyd, mae unrhyw newidiadau i'r galw yn sgil cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant newydd yn debygol o gael mwy o effaith ar wasanaethau gofal dydd llawn na gwasanaethau rhan-amser.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrif sgôr ar gyfer capasiti gofal plant, er mwyn mesur argaeledd gwasanaethau gofal plant o ganlyniad i'r cynnig gofal plant.

2.2 Cafodd y gwaith dadansoddi ar gyfer y prosiect hwn ei wneud gan ymchwilwyr o Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru. Defnyddiodd yr ymchwilwyr eu dulliau dadansoddi pwrpasol i ddarparu'r allbynnau a welir yn yr adroddiad hwn.

2.3 Caiff data ar gyfanswm y capasiti gofal plant ar draws Cymru eu casglu'n rheolaidd gan AGGCC[7]. Gellir creu model galw a chyflenwad ar gyfer argaeledd gofal plant drwy ystyried y cyflenwad o ofal plant yn erbyn y galw posibl yn y grŵp oedran 0-4 oed[8].

2.4 Mae ffactorau ychwanegol fel pellter (neu fesur agosrwydd fel amser) hefyd yn bwysig wrth fesur argaeledd cyffredinol y gwasanaeth. Mae hyn yn seiliedig ar dybiaeth ei bod yn well gan bobl ddefnyddio gwasanaeth sydd wedi'i leoli gerllaw yn hytrach na theithio ymhellach.

2.5 Caiff system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) ei defnyddio i fapio a dadansoddi lleoliadau cyflenwi'r holl ddarparwyr gofal plant a'r ardaloedd ar draws Cymru lle mae galw am wasanaethau, ar raddfa ddaearyddol fanwl[9]. Diffinnir canolfan boblogaeth fel pwynt ganolog Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad (OA)[10]. Mae'r ardaloedd hyn fel arfer yn cynnwys rhwng 110 a 150 o aelwydydd, a'r boblogaeth gyfartalog o ran plant 0-4 oed ym mhob Ardal Gynnyrch yw oddeutu 18 o blant.

[7] Mae cyfanswm y capasiti gofal plant yn seiliedig ar uchafswm y lleoedd a gofnodwyd ar gyfer y darparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ag AGGCC.
[8] Defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015 yr ONS i gyfrif yr ardaloedd lle mae galw am wasanaethau ar gyfer y grŵp oedran 0-4 oed.
[9] Defnyddir y cod post ar gyfer pob darparwr AGGCC i fapio argaeledd y cyflenwad.
[10] Gweler https://www.ons.gov.uk/census/2001censusandearlier/dataandproducts/outputgeography/outputareas

2.6 Mae system GIS yn darparu'r gallu i ddefnyddio technegau modelu gofodol uwch i roi dadansoddiad manwl o'r amrywiaeth o ran darpariaeth gofal plant yng Nghymru. Yr algorithm a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yw'r 'dalgylch cyfnewidiol 2 gam' (2SFCA). Mae'r dechneg hon yn defnyddio cyfrifiad 2 gam i fesur cymhareb y cyflenwad i'r galw ar gyfer gofal plant, ac mae'n seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

i) Mae darparwr gofal plant sydd wedi'i leoli'n agosach at y cartref yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio.

ii) Ceir cyfyngiad (pellter neu amser) ar ba mor bell y mae pobl yn fodlon teithio i gyrraedd darparwr gofal plant[11].

2.7 Caiff dalgylch cyfnewidiol ei ffurfio o amgylch pob canolfan boblogaeth unigryw er mwyn cyfrif y pellter mwyaf y mae pobl yn fodlon ei deithio. Tybir bod amser teithio o 20 munud[12] yn fesur realistig ar gyfer pobl sy'n teithio mewn car i gyrraedd darparwr gofal plant[13]. Pe bai'r amser teithio hwn yn cael ei gynyddu, byddai'r amrywioldeb lleol o ran argaeledd gofal plant yn lleihau'n raddol.


2.8 Er enghraifft, mae Ffigur 2a yn dangos lleoliad darparwyr gofal plant (deiamwntiau) a chanolfannau poblogaeth (sgwariau). Mae'r dalgylch a ddengys gan y cylch yn cynrychioli'r pellter y mae unigolion sy'n preswylio yn y ganolfan boblogaeth yn fodlon ei deithio.

2.9 Amcangyfrifir cymhareb cyflenwad i'r galw ar gyfer pob dalgylch, sy'n cael ei neilltuo i'r ganolfan boblogaeth agosaf fel sgôr gychwynnol ar gyfer capasiti gofal plant. Caiff y sgôr hon ei chyfrif drwy rannu cyfanswm y lleoedd y gellir eu cyrraedd o fewn y dalgylch cyfnewidiol â chyfanswm y plant 0-4 oed cymwys sy'n byw yn yr ardal[14].


[11] Caiff pellter/amseroedd gyrru eu modelu yn ôl y rhwydwaith ffyrdd a'r gallu i deithio drwy'r rhwydwaith ar gyflymderau rhagosodedig yn dibynnu ar ddosbarthiad y ffyrdd.
[12] Y trothwy technegol a ddefnyddiwyd ar gyfer amser teithio oedd 10 munud. Fodd bynnag, penderfynwyd bod 20 munud yn fwy priodol er mwyn adlewyrchu digwyddiadau go iawn a ffactorau fel tagfeydd traffig a theithio yn ystod adegau prysur.
[13] Dyma'r dybiaeth safonol ar gyfer cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, yn achos gofal plant, nid yw'n wybyddus ar hyn o bryd faint o rieni sy'n defnyddio'r gofal plant yn eu gweithle, yn hytrach na gartref. Dyma faes y dylid ymchwilio ymhellach iddo.
[14] Mae plant ond yn gymwys os ydynt yn byw mewn aelwydydd lle mae'r ddau riant yn gweithio. Mae cyfran yr aelwydydd sy'n gweithio ar lefel Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau er mwyn pennu'r cyfanswm ar gyfer pob plentyn 0-4 oed sy'n gymwys.

2.10 I gyfrif am y ffaith bod darparwyr agosach yn fwy tebygol o gael eu defnyddio na'r rheini sydd ymhellach i ffwrdd, defnyddiwyd swyddogaeth gwanhad-pellter i sicrhau bod pob dalgylch cyfnewidiol wedi'i bwysoli yn ôl agosrwydd daearyddol i wasanaethau. Golyga hyn y gallai darparwyr gofal plant berthyn i fwy nag un dalgylch ac felly rhaid i'r lleoedd sydd ar gael ganddynt gael eu 'rhannu' rhwng y grwpiau poblogaeth hyn. Fel y gwelir yn Ffigur 2b.

**Ffigur 2a. Enghraifft wedi'i symleiddio'r dechneg 'dalgylch cyfnewidiol'**




**Ffigur 2b. Enghraifft o ddalgylchoedd cyfnewidiol sy'n gorgyffwrdd**



2.11 Mae'r dull 2SFCA yn mynd i'r afael â gorgyffwrdd drwy ddefnyddio pob darparwr yn hytrach na'r ganolfan boblogaeth fel canolbwynt h.y. pennu'r dalgylch o amgylch pob darparwr gofal plant. Dengys hyn yn Ffigur 2c. Wedyn, caiff cyfrifiadau tebyg eu gwneud fel o'r blaen i roi sgôr ar gyfer pob darparwr gofal plant. Fodd bynnag, mae'r gymhareb i'r gwrthwyneb (h.y. galw i'r cyflenwad) ac yn cael ei gyfrif drwy rannu nifer y plant 0-4 oed sy'n gymwys â chyfanswm y lleoedd sydd ar gael. Mae'r canlyniad yn sgôr unigryw ar gyfer capasiti gofal plant, sydd wedi'i modelu yn ôl y darparwyr gofal plant mwyaf hygyrch o ran amser teithio.

**Ffigur 2c. Enghraifft o ddalgylch darparwyr gofal plant**



2.12 Mae'r sgôr terfynol ar gyfer capasiti gofal plant bellach yn adlewyrchu'r galw cymwys am wasanaethau (h.y. nifer y plant 0-4 oed o aelwydydd sy'n gweithio), agosrwydd y gwasanaethau (h.y. pa mor agos ydynt), y cyfle cronnol (h.y. nifer y gwasanaethau yn yr ardal) a'r capasiti cyflenwi (h.y. nifer y lleoedd sydd ar gael).

2.13 I bennu argaeledd gofal plant ar sail categorïau penodol fel gofal dydd llawn, gwarchodwyr plant a gofal rhan-amser, caiff y sgoriau terfynol ar gyfer capasiti gofal plant eu mynegi yn ôl 'oriau o argaeledd'. Felly, er enghraifft, tybiwyd bod pob lle mewn gwasanaeth gofal dydd llawnamser neu gyda gwarchodwr plant yn cyfateb i wyth awr o argaeledd. Yn yr un modd, tybiwyd bod lle rhan-amser mewn cyfleuster gofal dydd yn cyfateb i bedair awr o argaeledd (mae hyn yn cynnwys darparwyr gofal dydd sesiynol, *crèches*, darpariaeth chwarae mynediad agored a gofal y tu allan i oriau ysgol).

2.14 Mae'r sgôr terfynol ar gyfer pob canolfan boblogaeth bellach wedi'i ddehongli fel 'nifer yr oriau o ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael fesul plentyn sy'n gymwys i gael gofal plant am ddim'.

## 3. Y Darlun yng Nghymru

3.1 Yn ô yr amcangyfrifon presennol mae tua 175,000 o blant o dan bump oed yn byw yng Nghymru. Mae cyfanswm o ychydig yn llai na 80,000 o leoedd gofal plant ar gael, ac o'r rheini mae 45,000 o bosibl yn lleoedd dyddiau llawn. Felly, nid oes digon o leoedd ar gael i bob plentyn allu cael gofal plant llawn amser.

3.2 Yr elfennau allweddol i'r prosiect hwn yw'r ardaloedd sydd â llai o ddarpariaeth ar gael, a faint o oriau y gellir eu darparu i blant sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant newydd. Fel y dywedwyd eisoes, mae tua dwy ran o dair o aelwydydd â phlant dibynnol tair a phedair oed, yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant.

3.3 Mae tua 40% o blant dan bump oed yn un ai dair neu bedair oed, hynny yw 70,000 o blant. Petai pawb sy'n gymwys yn manteisio ar y cynnig, byddai'n golygu bod angen ychydig dros 46,000 o leoedd llawnamser. Mae hyn yn golygu, yn ôl yr amcangyfrifon presennol, petai'r holl leoedd llawn amser yn cael eu neilltuo ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, byddem yn parhau i fod yn brin o leoedd.

3.4 Mae'r dadansoddiad dalgylch cyfnewidiol 2 gam (2SFCA) yn darparu amcangyfrif o nifer yr oriau sydd ar gael i blant ym mhob ardal, petai pawb eisiau mynychu lleoliad gofal plant ffurfiol. Er enghraifft, byddai amcangyfrif o wyth awr yn golygu y gall pob plentyn yn yr ardal honno gael gofal plant ffurfiol o ryw fath am wyth awr bob wythnos. Byddai hyn yn golygu eu bod yn gallu cael un dydd o ofal llawn amser yr un.

3.5 Mae canlyniadau'r dadansoddiad yn awgrymu nad yw hyd yn oed yr ardaloedd â'r capasiti uchaf fesul plentyn yn gallu darparu fawr mwy na chwe awr i bob plentyn; mae rhai ardaloedd lle nad oes gofal plant ar gael o gwbl. Ar gyfartaledd, ledled Cymru gyfan, lefel argaeledd gofal plant yw 2 awr a 40 munud fesul plentyn.

3.6 Mae nifer yr oriau sydd ar gael yn gyfuniad o ofal dydd llawn amser, gofal dydd rhan-amser a gofalwyr plant. Bydd cyfrannau cymharol y mathau o ofal yn amrywio o ardal i ardal. Ar gyfartaledd, mae lleoliadau gofal dydd llawn yn gyfrifol am hanner yr oriau sydd ar gael, a daw chwarter yr un oddi wrth ofalwyr plant a gofal dydd rhan-amser.

3.7 Yn gyffredinol, ymddengys bod mwy o gapasiti o ran gofal plant mewn ardaloedd trefol a chefnog. Mae'r cyfartaleddau ychydig yn uwch yng nghyffiniau prif drefi a dinasoedd na mewn ardaloedd mwy gwledig, gyda'r ardaloedd o gwmpas Wrecsam, Bangor a Chonwy'n dangos lefelau argaeledd uwch o ran oriau, yn ôl y disgwyl.


3.8 Ceir hefyd nifer o fân ardaloedd lle mae argaeledd yn arbennig o uchel. Mae'r sefyllfa hon yn codi pan fo nifer y plant yn yr ardal honno'n is na'r cyfartaledd, tra bo nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn uchel. Er enghraifft, pan fo canolfan gofal dydd fawr wedi'i lleoli y tu allan i dref, neu hanner ffordd rhwng canolfannau poblogaeth eraill. Mae'n ymddangos hefyd bod tuedd i'r ardaloedd hyn sydd ag argaeledd uchel fod yn nes at y ffin, gan awgrymu eu bod yn darparu ar gyfer plant sy'n byw yn Lloegr, sydd ddim yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad.

3.9 Mae lefelau is o argaeledd i'w gweld yn gyffredinol mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig. Yn gyffredinol, mae llai nag awr a hanner o ofal plant ar gael fesul plentyn yn y Canolbarth ac yn y Cymoedd.

3.10 Mae'r canlyniadau hyn yn gyson â'r rhagfynegiadau blaenorol ynghylch argaeledd gofal plant. Mae'r dwysedd poblogaeth llai, ond lefelau uwch o gyflogaeth a chyfoeth yn y Gogledd yn golygu bod cyfartaledd argaeledd gofal plant yn uchel ar y cyfan. Er bod lefelau uchel o ddarpariaeth gofal plant yn y De-ddwyrain, yn enwedig yng nghyffiniau'r prif ddinasoedd, mae hefyd dwysedd mawr o blant i ddefnyddio'r lleoedd.

3.11 Mae lefelau argaeledd isel y Cymoedd a'r Canolbarth yn gysylltiedig â lefelau isel y ddarpariaeth gofal plant yn yr ardaloedd hyn, ond mae'r dwysedd poblogaeth uwch yn arwain at lefel argaeledd is fyth yn y Cymoedd.

**Ffigur 3a. Map o Gymru sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer yr holl blant hyd at bedair oed, gan gynnwys pob math o ofal plant.**




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017

AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

3.12 Gwelwn ddarlun ychydig yn wahanol pan rydym yn cynnwys plant sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio yn unig. Drwy gynnwys yr aelwydydd hynny sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn unig, bydd yr ardaloedd hynny sydd â chyfran is o rieni sy'n gweithio yn gweld cynnydd mwy o ran argaeledd gofal plant na'r rhai lle mae lefelau cyflogaeth ar eu huchaf.

3.13 Gan mai dim ond dyrnaid o ardaloedd bach yng Nghymru sydd heb ddiweithdra, pan ddefnyddir yr is-boblogaeth hon, mae nifer yr oriau fesul plentyn yn cynyddu ar draws Cymru i bedair awr a phum munud ar gyfartaledd. Mae cyfran yr ardaloedd sy'n gallu darparu mwy na chwe awr o ofal plant fesul plentyn yn cynyddu o 0.5 y cant i ychydig dros 11 y cant.

3.14 Mae'r canlyniadau a ddangosir yn Ffigur 1c yn awgrymu mai ardaloedd yn y Gogledd-orllewin a'r De-orllewin sydd â'r cyfrannau isaf o rieni sy'n gweithio. Felly, mae'r ardaloedd hyn yn dangos cryn gynnydd yn nifer yr oriau sydd ar gael fesul plentyn pan ddefnyddir yr is-boblogaeth hon.


3.15 O blith yr holl fathau o ddarparwyr gofal plant, ymddengys mai gwarchodwyr plant sy'n dangos y gwahaniaeth mwyaf wrth gynnwys aelwydydd cymwys yn unig. Mae hyn yn awgrymu bod gwarchodwyr plant yn dod yn fath mwy cyffredin o ddarpariaeth gofal plant mewn ardaloedd â llai o bobl mewn cyflogaeth.

3.16 Nifer yr oriau a ddarperir gan warchodwyr plant yn unig ar draws Cymru ar gyfartaledd yw tua awr fesul plentyn, ac mae'n codi i ddwy awr mewn ardaloedd â chapasiti uchel. Mae'n ymddangos bod y cynnydd a welir yn y Gogledd-orllewin a'r De-orllewin yn deillio o warchodwyr plant yn bennaf. Gwelir cynnydd arbennig yn argaeledd gwarchodwyr plant yng nghyffiniau Aberteifi, Abergwaun, Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Pwllheli ac Ynys Môn.


3.17 Ar gyfartaledd, tua dwy awr o ofal dydd llawn sydd ar gael fesul plentyn cymwys, ac mae hyn yn cynyddu i dair neu bedair awr mewn ardaloedd â chapasiti uchel. Ymddengys fod yr ardaloedd capasiti uchel hyn ar wasgar ac wedi'u lleoli'n bennaf yng nghefn gwlad, yn y Gogledd neu'n agos at y ffin â Lloegr. Maer hyn yn awgrymu bod yr ardaloedd capasiti uchel hyn i'w gweld lle mae un ai trwch y boblogaeth yn denau neu ddiweithdra'n uchel, neu maent yn darparu ar gyfer plant sy'n byw yn Lloegr.

3.18 Mae'n ymddangos fod mwy o ofal plant rhan-amser ar gael yn ardaloedd y De-orllewin a'r Gogledd. Mae argaeledd gofal plant rhan-amser yn cydweddu'n agos â'r gyfran sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal honno. Mae'n bosibl mai'r cynnydd yn nifer y grwpiau chwarae Cymraeg a gofal plant sesiynol sy'n gyfrifol am hyn.

**Ffigur 3b. Map o Gymru sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, gan gynnwys pob math o ofal plant.**




**Ffigur 3c. Map o Gymru sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun sy’n gweithio, o ran gwarchodwyr plant yn unig.**





AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017

**Ffigur 3d. Map o Gymru'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, o ran lleoliadau gofal dydd llawn yn unig.**



**Ffigur 3e. Map o Gymru sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, o ran lleoliadau rhan-amser yn unig.**



## 4. Ardaloedd y Gweithredwyr Cynnar

4.1 Un o brif amcanion y prosiect hwn oedd llywio’r broses o gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant newydd. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei beilota yn ardaloedd saith o awdurdodau lleol o fis Medi 2017[15] ymlaen. Dewiswyd yr ardaloedd hyn i gael cydbwysedd rhwng cymunedau gwledig a threfol ac i sicrhau eu bod wedi'u gwasgaru'n dda dros Gymru yn ddaearyddol er mwyn profi'r cynnig yn drylwyr o fewn y cyllid sydd ar gael. Bydd yr ardaloedd hyn hefyd yn edrych ar yr ymateb i'r oriau am ddim gan rieni a darparwyr gofal plant. Felly, bydd bod â dealltwriaeth o argaeledd gofal plant yn yr ardaloedd hyn cyn gwneud profion yn helpu i fframio a dehongli canlyniadau'r rhaglenni peilot.

**Rhondda Cynon Taf**

4.2 Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod lleol mwyaf ond un o ran nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol, gydag ychydig dros 50,000 o aelwydydd. Mae'r nifer hwn yn cynrychioli tuag 8 y cant o'r holl aelwydydd â phlant dibynnol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gyfran o'r aelwydydd hyn a fyddai'n gymwys i gael y cynnig gofal plant yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac felly ychydig dros 65 y cant o'r aelwydydd hyn a fyddai'n gymwys, sef y gyfradd cyflogaeth ar gyfer menywod yn yr awdurdod[16].

4.3 Yn ogystal, mae MALIC yn dangos bod 74 y cant o'r awdurdod lleol yng nghategori'r 50 y cant mwyaf difreintiedig, bod 51 y cant yng nghategori'r 30 y cant mwyaf difreintiedig a bod 18 y cant yng nghategori'r 10 y cant mwyaf difreintiedig.[17] Mae hyn yn golygu bod bron i dri chwarter Rhondda Cynon Taf yn fwy difreintiedig na gweddill Cymru a bod bron i un aelwyd o bob pump yno ymhlith y deg y cant uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

4.4 Mae'r cynnig gofal plant yn cael ei weithredu'n gynnar a'i brofi yn ardaloedd pedwar o glystyrau ysgol yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r rhain ym Meddau yn ardal Taf yn Rhondda Cynon Taf, Glynrhedynog yn ardal y Rhondda, Aberpennar yn ardal Cynon a chlwstwr Ysgol Gyfun Rhydywaun sy'n cynnwys holl ardal Cynon ar gyfer darpariaeth addysg Gymraeg.


[15] Gweler http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/?lang=cy
[16] Gweler https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed
[17] Gweler https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014/wimd2014localauthorityanalysis

4.5 Mae cyfartaledd gymharol isel gan Rhondda Cynon Taf o ran nifer yr oriau sydd ar gael fesul plentyn, sef tua tair awr fesul pob plentyn cymwys. Mae band nodedig o ddarpariaeth is yn rhedeg i lawr canol yr awdurdod lleol o'r Gogledd tua'r canol o amgylch y Maerdy. Y rheswm pennaf dros hyn yw bod llai o ofal dydd llawn neu ofal rhan-amserar gael o'i chymharu ag ardaloedd eraill. Mae cofnodion AGGCC yn dangos bod 80 o wasanaethau gofal dydd yn Rhondda Cynon Taf, ac mae 40 o'r rheini'n darparu gofal dydd llawn.[18] Fodd bynnag mae 167 o warchodwyr plant, ac ar gyfer yr ardaloedd lle mae'r dwysedd poblogaeth yn uwch, gwarchodwyr plant yw tua hanner y capasiti.

4.6 Yn ôl cofnodion AGGIC, mae'n ymddangos mai gwarchodwyr plant sy'n cynnig y rhan fwyaf o'r oriau a bod mwy o ddarpariaeth, yn gyffredinol, yn ne'r awdurdod gyda rhywfaint o ddarpariaeth ar gael ar draws y rhan fwyaf o'r awdurdod lleol. Mae darpariaeth gofal plant dydd llawn a rhan-amser yn amlwg yn is yn rhan ogleddol yr awdurdod lleol a tuag at ei ganol.

[18] Gweler https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Services-for-Social-Care-and-Childrens-Day-Care/cssiwservicesandplaces-by-localauthority

**Ffigur 4a. Mapiau o Rhondda Cynon Taf sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser**



### Abertawe

4.7 Mae'r ardaloedd lle gweithredir y cynnig yn gynnar yn Abertawe wedi'u gwasgaru ar draws y ddinas. Mae hyn yn targedu ardaloedd sydd â lefelau cymhwysedd da a'i nod yw profi cymysgwch o ddarpariaeth ar safleoedd ysgolion a lleoliadau meithrinfa ddydd. Dewiswyd wardiau â lefelau rhesymol o bobl mewn gwaith i geisio sicrhau y gall digon o rieni cymwys fanteisio ar y cynnig. Mae'r canran o rieni y disgwylir iddynt fod yn gymwys wedi'i seilio ar gyfradd cyflogaeth menywod yr awdurdod lleol, sef 67 y cant.


4.8 Yn ôl cofnodion AGGIC, mae 114 o wasanaethau gofal dydd yn Abertawe, ac mae 47 ohonynt yn ddarparwyr gofal dydd llawn. Mae nifer tebyg o warchodwyr plant wedi'u cofrestru ag AGGIC yn Abertawe, sef cyfanswm o 147 o ddarparwyr[19].

4.9 Yn gyffredinol, mae lefel dda o ddarpariaeth ar draws yr awdurdod, ac mae gofal dydd llawn a darpariaeth gwarchodwyr plant yn rhychwantu'r rhan fwyaf o'r awdurdod. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn sylweddol is yn rhannau gogleddol a gorllewinol Abertawe, a hynny'n wir am bob math o ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig yn wardiau Mawr a Phontarddulais.

4.10 Yn ogystal, nid oes fawr ddim darpariaeth gofal dydd rhan-amser ar gael ledled yr awdurdod. Gofal dydd llawn yw'r rhan fwyaf o'r capasiti yn ei gyfanrwydd, ond mae gofalwyr plant yn fwy cyffredin yn rhan orllewinol yr ardal, sef y rhan fwy cefnog o'r awdurdod sydd hefyd â dwysedd poblogaeth llai.

[19] Gweler https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Services-for-Social-Care-and-Childrens-Day-Care/cssiwservicesandplaces-by-localauthority

**Ffigur 4b. Mapiau o Abertawe sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser**



**Blaenau Gwent**


4.11 O holl ardaloedd y gweithredwyr cynnar, Blaenau Gwent sydd â'r gyfradd cyflogaeth isaf, sef 66.8 y cant, a chyfradd cyflogaeth menywod o 65.5 y cant. O ystyried hyn, mae Blaenau Gwent wedi cytuno i gynnal prawf ar yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd o fis Medi 2017. Oherwydd cyfraddau cyflogaeth gymharol isel Blaenau Gwent, byddwn yn gallu profi nod y polisi o ddileu gofal plant fel rhwystr rhag gweithio.

4.12 Mae nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig ym Mlaenau Gwent yn cynnwys 21 o wasanaethau gofal dydd a 46 o warchodwyr plant yn ôl cofnodion AGGIC. Mae hyn yn golygu mai dim ond 1.5 y cant o wasanaethau gofal plant sydd wedi'u lleoli yn yr awdurdod lleol hwn, sy'n 1.2 y cant o'r holl leoedd sydd ar gael, ond mae 2.2 y cant o'r plant o dan bump oed yn byw yno.

4.13 Yn gyffredinol, mae'r capasiti tua'r un fath â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae gofal dydd llawn wedi'i wasgaru'n wastad ar draws y rhan fwyaf o'r ardal ar gyfradd o rhwng un a thair awr fesul plentyn sy'n gymwys, a gwarchodwyr plant sydd i gyfrif bron yn gyfan gwbl am yr ardaloedd hynny â mwy o ddarpariaeth. Fel yn Abertawe, ymddengys bod ychydig iawn o ofal dydd rhan-amser, neu ddim o gwbl, ar gael ar draws holl awdurdod lleol Blaenau Gwent.

4.14 Wrth ystyried aelwydydd lle mae rhywun sy'n gweithio, ymddengys mai ychydig iawn o ddarpariaeth gofal plant, neu ddim o gwbl, sydd ar gael yn ward Sirhywi, sy'n cynnwys Trefil, y gellir ei weld ar y mapiau. Ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod lefel llawer uwch o ddarpariaeth gofal plant ar gael yn ward Llanhiledd, sy'n rhedeg at ben deheuol yr awdurdod.

**Ffigur 4c. Mapiau o Flaenau Gwent sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser**



**Ynys Môn a Gwynedd**

4.15 Mae Gwynedd wedi dewis pum ardal llesiant i gyflwyno'r cynnig ynddynt o fis Medi 2017 ymlaen. Mae'r pum ardal yn darparu cymysgedd go iawn o ran demograffeg, natur wledig a darpariaeth. Mae gan rai lefelau gwell o ddarpariaeth a chapasiti nag eraill a cheir nifer isel iawn o blant mewn rhai ardaloedd gwledig, fel Ffestiniog, felly bydd y rheini'n helpu i bwyso a mesur pa mor hawdd yw canfod darpariaeth i blant yno.

4.16 Dewiswyd Bangor a Chaernarfon am eu bod yn agos i'r ffin â Môn er mwyn edrych ar y llwybrau teithio i'r gwaith, sut mae'r cynnig yn gweithio ar draws ffiniau ac i fonitro ymddygiad rhieni i weld a ydynt yn defnyddio lleoliadau gofal plant sy'n agos i'w gwaith neu i'w cartrefi.

4.17 Mae Môn wedi dewis cymysgedd o ardaloedd gwledig a rhai gweddol drefol, ac ardaloedd lle mae rhieni'n croesi'r Fenai i weithio ac yn manteisio ar y cynnig yng Ngwynedd.


4.18 Mae rhifau cyflogaeth ONS yng Ngwynedd a Môn yn uchel i'w cymharu ag ardaloedd y gweithredwyr cynnar eraill, sef 73.8 y cant a 71 y cant yn eu tro. Cyfradd cyflogaeth menywod Gwynedd yw 69.9 y cant, yr uchaf o holl ardaloedd y gweithredwyr cynnar, ac mae cyfradd cyflogaeth Môn yn 69.7 y cant.

4.19 Mae 222 o wasanaethau gofal plant yng Ngwynedd a 132 ym Môn[20]. Yn y ddwy ardal, mae tua hanner y gwasanaethau hyn yn warchodwyr plant. Ceir 99 o ganolfannau gofal dydd yn Ngwynedd, a 26 ohonynt yn unig sy'n llawn amser. Ym Môn, dim ond 16 o'r 79 canolfan gofal dydd sy'n rhai llawn amser.

4.20 Ceir lefel uchel o gapasiti yn yr ardal hon yn gyffredinol wrth ystyried pob math o ofal plant, gyda gwahanol fathau'n fwyaf cyffredin mewn gwahanol rannau o'r ardal. Fodd bynnag, os ystyrir gofal dydd llawn yn unig, ceir darpariaeth dda mewn rhai clystyrau gan gynnwys o gwmpas Dolgellau ac ar draws Môn rhwng Porthaethwy a Chaergybi. Wrth edrych ar weddill y ddau awdurdod lleol, ychydig o gapasiti ar gyfer darpariaeth gofal dydd llawn sydd ar gael, neu ddim o gwbl.

[20] Gweler https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Services-for-Social-Care-and-Childrens-Day-Care/cssiwservicesandplaces-by-localauthority

**Ffigur 4d. Mapiau o Ynys Môn a Gwynedd sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser**




**Caerffili**


4.21 Mae Caerffili wedi dewis rhanbarth Dwyrain Canol y Cymoedd i fod yn rhan o’r broses o weithredu'r cynnig gofal plant yn gynnar. Mae'r ardaloedd a ddewiswyd yn darparu amrywiaeth dda o leoliadau trefol a gwledig yn ogystal â gwahanol lefelau o gyfoeth. Fel awdurdod lleol, mae ystadegau cyflogaeth ONS yn dangos bod 71 y cant o'r boblogaeth mewn cyflogaeth yn gyffredinol. Y ffigur ar gyfer menywod yw 66.8 y cant.

4.22 Bydd yr Awdurdod lleol yn cynnal prawf ar integreiddio o ran nifer y lleoedd gofal plant a'r darparwyr gan fod y cynnig yn yr ardal hon yn cynnwys darpariaeth Gymraeg, anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth Dechrau'n Deg.

4.23 Ceir 164 o ofalwyr plant a 109 o ganolfannau gofal dydd yng Nghaerffili, ac mae 35 o'r rhain yn llawn amser. Mae hyn yn golygu bod 6.2 y cant o'r holl wasanaethau gofal plant i’w cael yng Nghaerffili, gan ddarparu tua 2,400 o leoedd llawn amser a 1,800 o leoedd rhan-amser. Mae hyn yn cyfateb i 5.1 y cant o'r holl leoedd sydd ar gael ledled Cymru, i ddarparu gofal ar gyfer 6.1 y cant o'r plant o dan bump oed.

4.24 Ymddengys fod gofal plant ar gael yng Nghaerffili yng nghyffiniau ardaloedd mwy trefol Caerffili ei hun ac Ystrad Mynach. Ceir gwarchodwyr plant a gwasanaethau dydd llawn amser yn yr ardaloedd hyn, ac mae elfen sylweddol o orgyffwrdd o ran eu darpariaeth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gofal dydd llawn yn darparu dwywaith nifer yr oriau fesul plentyn cymwys na gwarchodwyr plant yn yr ardaloedd hyn. Mae gofal plant rhan-amser hefyd i'w gael yn yr un ardaloedd, ond dim mwy na dwy awr fesul plentyn cymwys.

**Ffigur 4e. Mapiau o Gaerffili sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser**



**Sir y Fflint**

4.25 Mae Sir y Fflint wedi dewis ardaloedd Bwcle, Bagillt a Brychdyn er mwyn profi mewn ardaloedd â lefelau uchel o gyflogaeth a lle mae posibilrwydd o ddefnydd trawsffiniol o'r cynnig (rhwng Lloegr a Wrecsam) ac i ymchwilio i lwybrau teithio i'r gwaith ac ymddygiad.

4.26 Mae Sir y Fflint hefyd wedi dewis wardiau sydd ag ardaloedd Dechrau'n Deg (ac eithrio'r Fflint a'r Wyddgrug oherwydd cyfyngiadau ariannol) a fydd yn profi'r broses o bontio rhwng Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant ac a yw'r polisi'n cyflawni ei nod o helpu rhieni i weithio.


4.27 Bydd yr ardal sy'n gweithredu'r cynnig yn gynnar yn Sir y Fflint yn darparu gwybodaeth ddiddorol mewn perthynas â lleoliadau a gynhelir (ee ysgolion) a rhai nas cynhelir (ee meithrinfeydd preifat), gan nad ydynt yn defnyddio lleoliadau a gynhelir hyd nes y bydd mwy o alw am leoedd cyfnod sylfaen i blant tair oed nag sydd ar gael mewn darpariaeth nas cynhelir.

4.28 Ar gyfartaledd, o ran darpariaeth gofal plant ar draws Cymru, mae 55 y cant yn warchodwyr plant, 15 y cant yn ofal dydd llawn a 30 y cant yn ofal dydd rhan-amser. Fodd bynnag, yn Sir y Fflint mae gofal dydd rhan-amser yn gyfrifol am 36 y cant o'r holl wasanaethau, a gofal dydd llawn amser yn gyfrifol am 11 y cant yn unig.

4.29 Fel y rhan fwyaf o ardaloedd eraill yn y Gogledd, mae gan Sir y Fflint ddarpariaeth gymharol uchel o ofal plant. Mae gan yr ardaloedd sydd â chapasiti arbennig o uchel nifer uchel o warchodwyr plant a lleoliadau gofal dydd llawn. Fodd bynnag, ategir hyn gan lefel gymharol uchel o ofal dydd rhan-amser ar draws yr holl ardal; ychydig iawn o rannau o'r ardal sydd heb unrhyw ofal dydd rhan-amser ar gael.

4.30 Yn wahanol i ardaloedd gweithredwyr cynnar eraill yn y De, mae gan Sir y Fflint gyfran uwch o wasanaethau gofal plant o'i gymharu â'r boblogaeth o blant cyn ysgol. Mae tua chwech y cant o'r gwasanaethau, a saith y cant o'r lleoedd sydd ar gael yng Nghymru, i'w cael yn Sir y Fflint; ond 4.9 y cant yn unig o'r plant o dan bump oed sy'n byw yno.

**Ffigur 4f. Mapiau o Sir y Fflint sy'n dangos nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i blant o hyd at bedair oed sy'n byw ar aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio, ar gyfer pob math o ofal plant, gwarchodwyr plant, lleoliadau dydd llawn a lleoliadau rhan-amser**



## 5. Casgliadau

5.1 Mae'n amlwg bod y farchnad gofal plant a'r ddarpariaeth sydd ar gael i deuluoedd yn cynrychioli darlun cymhleth, a bod gofal plant ffurfiol yn amrywio ar draws Cymru fesul rhanbarth a math o leoliad. Mae gwarchodwyr plant, lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau rhan-amser wedi'u dosbarthu'n bennaf ar draws rhanbarthau'r Gogledd a'r De-ddwyrain, ac mae lleoliadau gofal dydd llawn wedi'u clystyru o gwmpas ardaloedd trefol.

5.2 Amcangyfrifwyd y byddai'r capasiti gofal plant o bosibl ar ei uchaf mewn ardaloedd cefnog, ac yn enwedig felly yn y Gogledd, lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Yn gyffredinol, ymddengys bod hyn yn wir, a bod lefelau capasiti gofal plant yn uwch mewn ardaloedd trefol a chefnog. Mae cyfartaleddau'r ardaloedd o gwmpas prif drefi a dinasoedd ychydig yn uwch na'r ardaloedd mwy gwledig, a gwelir lefelau argaeledd is mewn ardaloedd mwy gweledig a difreintiedig.

5.3 Ceir hefyd nifer o fân ardaloedd lle mae argaeledd yn arbennig o uchel. Mae'r sefyllfa hon yn codi pan fo nifer y plant yn yr ardal honno'n is na'r cyfartaledd, tra bo nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn uchel. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r dadansoddiad yn awgrymu nad yw hyd yn oed yr ardaloedd sydd â'r capasiti uchaf fesul plentyn yn gallu cynnig fawr yn fwy na chwe awr fesul plentyn; ac mae rhai ardaloedd sydd heb unrhyw ofal plant ar gael.

5.4 O blith yr holl fathau o ddarparwyr gofal plant, ymddengys mai gwarchodwyr plant sy'n dangos y gwahaniaeth mwyaf wrth gynnwys aelwydydd cymwys yn unig. Mae hyn yn awgrymu bod gwarchodwyr plant yn dod yn fath mwy cyffredin o ddarpariaeth gofal plant mewn ardaloedd lle mae llai o bobl mewn cyflogaeth.

5.5 Mae gwerthusiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd o'r ardaloedd lle y rhoddwyd y Cynnig Gofal Plant ar waith yn gynnar. Bydd yn ystyried y broses ac yn ceisio nodi unrhyw effeithiau a gafodd y Cynnig Gofal Plant. Bydd hyn yn edrych ar effaith y Cynnig Gofal Plant ar y galw ac ar gapasiti lleoliadau gofal plant yn yr ardaloedd a gymerodd ran yn y rhaglen beilot. Bydd hyn o gymorth wrth ystyried y galw am ofal plant ffurfiol yn ardaloedd y gweithredwyr cynnar a'r defnydd a wneir ohono, ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall y sefyllfa'n llawn ar lefel genedlaethol.

5.6 Fel rhan o lunio Cynllun y Gweithlu, rhoddwyd blaenoriaeth i'r sector gofal plant yng Nghymru a chyhoeddwyd bod cyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau cymorth busnes i ddarparwyr gofal plant. O ystyried y canfyddiadau hyn a datblygiadau polisi diweddar, gellid targedu ardaloedd lle y gwelwyd bod y ddarpariaeth yn brin i wella'r capasiti gofal plant. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am gymorth busnes a chyflogadwyedd i roi pecyn cymorth at ei gilydd ar gyfer y sector.

5.7 Er bod y prosiect hwn wedi ceisio mesur y cyflenwad yn erbyn y galw yng Nghymru, amcangyfrif o'r galw a'r galw posibl a ddefnyddiwyd yn unig, felly dylid cymryd gofal wrth ddehongli ym mha ardaloedd y mae posibilrwydd y bydd galw am ddarparwyr. Mae'n bosibl fod nifer o ffactorau y tu cefn i'r mannau yng Nghymru lle mae diffyg darpariaeth gofal plant, ac mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall yr ymddygiad ar ran rhieni sy'n cyfrannu at y ffactorau hyn a chael dealltwriaeth fwy eglur o'r galw gwirioneddol am ofal plant ffurfiol.